

**Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg  
(BIPCTM) a gynhaliwyd ddydd Iau 25 Mawrth 2021 fel Cyfarfod Ar lein a  
Ddarlledwyd yn Fyw drwy Microsoft Teams**

**Aelodau'n Bresennol:**

Marcus Longley	Cadeirydd
Paul Mears	Y Prif Weithredwr
Maria Thomas	Is-gadeirydd
Gareth Robinson	Prif Swyddog Gweithredu (Dros Dro)
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Greg Dix	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Ian Wells	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol
Keiron Montague	Aelod Annibynnol (Yn rhannol)
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Clare Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad (Dros Dro)
Steve Webster	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol

**Eraill yn Bresennol**

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Lee Leyshon	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebu
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Cathy Moss	Cyngor Iechyd Cymuned BIPCTM
David Jenkins	Cynghorydd Annibynnol i'r Bwrdd (yn Arsylwi)
Sara Utley	Archwilio Cymru
Louise Mann	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch (Yn rhannol)
Valerie Wilson	Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol (Yn rhannol)
Mohamed Elnasharty	Obstetregydd a Gynaecolegydd Ymgynghorol (Yn rhannol)
Victoria Box	Bydwraig (Yn rhannol)
Ria Jenkins	Bydwraig (Yn rhannol)
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

## Eitem ar yr Agenda

### 1

## MATERION RHAGARWEINIOL

### 1.1

### Croeso a Chyflwyniadau

**Croesawodd** y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai a oedd yn ymuno am y tro cyntaf, y rhai a oedd yn arsylwi a'r cydweithwyr oedd yn ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. **Nodwyd** hefyd fformat y digwyddiad yn ei ffurf rithwir gan y Cadeirydd.

Dyweddodd y Cadeirydd ei fod yn falch o gyhoeddi bod J Sadgrove wedi'i benodi'n Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd ac y byddai'n cychwyn yn ei swydd ar 1 Mehefin 2021. Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i MK Thomas am y cyfraniad gwych a wnaeth dros nifer o flynyddoedd yn ystod ei chyfnod fel Aelod Annibynnol ac Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd.

Dyweddodd y Cadeirydd ei fod hefyd yn falch iawn o gyhoeddi bod Lisa Curtis-Jones wedi'i phenodi'n Aelod Cyswllt ac y byddai'n cychwyn yn ei swydd ar 1 Mehefin 2021. Ychwanegodd y Cadeirydd fod tymor swydd I Wells wedi'i ymestyn am bedair blynedd arall.

### 1.2

### Ymddiheuriadau am Absenoldebau

**Nododd** yr aelodau ymddiheuriadau gan Philip White, Aelod Annibynnol, Mel Jehu, Aelod Annibynnol a Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd.

### 1.3

### Datganiadau o fuddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

### 1.4

### Gwrando a Dysgu ar y Cyd- Stori am Brofiad Claf

Rhannodd L Mann stori claf a oedd wedi goroesi cam-drin domestig.

**Croesawodd** Aelodau'r Bwrdd y stori yr oeddent yn ei chael yn hynod deimladwy a phwerus. Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i L Mann am y cyflwyniad.

Penderfyniad:

**NODWYD** Stori'r Claf.

### 1.5

### Gwrando a Dysgu ar y Cyd - Stori am Brofiad Staff

Ymunodd cydweithwyr V Wilson, Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol â hi i rannu Stori am Brofiad Staff a amlinellodd y

cynnydd a wnaed o fewn y Gwasanaethau Mamolaeth yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetregwyr a Gynaecolegwyr/Coleg Brenhinol y Bydwragedd ym mis Rhagfyr 2019.

**Nododd** yr aelodau y gwelliannau a wnaed yn arbennig mewn perthynas â gwrando ar staff a theuluoedd, adrodd am ddigwyddiadau a phrosesau dysgu ar y cyd. **Croesawodd** yr aelodau gyflwyniad y digwyddiadau cinio a dysgu a oedd wedi derbyn adborth rhagorol gan staff gan **nodi** bod y digwyddiadau wedi helpu i wella'r gwasanaeth i gleifion ynghyd â gwella llesiant staff.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i V Wilson a'i chydweithwyr am y cyflwyniad.

**Penderfyniad:** **NODWYD** y Stori am Brofiad Staff.

## **2 AGENDA CANIATÂD**

Cadarnhaodd yr Aelodau nad oedd unrhyw adroddiadau y dymument eu symud o'r Agenda Caniatâd i'r Prif Agenda. Ni chododd yr Aelodau unrhyw gwestiynau ar yr eitemau ar yr agenda caniatâd cyn y cyfarfod.

### **CANIATÂD I GYMERADWYO**

#### **2.1.1 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021 sydd eto i'w Cadarnhau**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

#### **2.1.2 Trefniadau adrodd diwedd y flwyddyn**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y trefniadau ar gyfer Adrodd ar Lywodraethu Corfforaethol diwedd blwyddyn.

#### **2.1.3 Adroddiad y Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin**

Penderfyniad:

- **CYMERADWYWYD** Gosod y Sêl Gyffredin.
- **CADARNHAWYD** Camau'r Cadeirydd mewn perthynas ag Ymateb Adroddiad Thematig y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth a Gweithredu Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg 2020.

#### **2.1.4 Cytundebau Adran 33**

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** adnewyddu'r Cytundeb Adran 33 o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â darparu cyfleoedd iechyd meddwl integredig yn ystod y dydd.

## 2.1.5 Diwygiad i'r Rheolau Sefydlog

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

## 2.1.6 Cytundebau Lletya ar gyfer Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr estyniad i'r cytundeb lletya ar gyfer Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru tan 31 Mawrth 2023.

## 2.1.7 Proses Hunanasesu Gwelliannau Parhaus mewn Ymateb i Ymyrraeth wedi'i Thargedu

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y dull diwygiedig o hunanasesu gwelliant yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd Ymyrraeth wedi'i Thargedu.

## 2.1.8 Diweddariad am Gronfa Elusennol Gyffredinol GIG Cwm Taf Morgannwg fel ar 28 Chwefror.

Penderfyniad:

- **CYMERADWYWYD** y cynnig i ymestyn y contract Elusennau, Eglwysi ac Awdurdodau Lleol (CCLA) ar gyfer y cyfnod o 1 Awst 2019 - 31 Gorffennaf 2023.
- **CYMERADWYWYD** y penderfyniad i beidio â dosbarthu gormodedd o dros 20% o werth marchnad y buddsoddiadau ar y cronfeydd unigol am y tro.
- **CYMERADWYWYD** y cynnig i fuddsoddi £600k o arian dros ben mewn unedau Cronfa Buddsoddi Moesegol Elusennau Cronfa Buddsoddi Swyddogol Elusennau (COIF) CCLA;
- **NODWYD** balansau cyfredol a pherfformiad buddsoddi Cronfa Elusennol Gyffredinol GIG Cwm Taf Morgannwg a chyfradd y Ffioedd Rheoli Buddsoddiadau a godir gan CCLA.

## 2.2 I'W NODI

### 2.2.1 Log Gweithredu'r Pwyllgor

Penderfyniad: **NODWYD** y Cofnod o Gamau Gweithredu.

### 2.2.2 Adroddiad y Prif Weithredwr

Penderfyniad: **NODWYD** adroddiad y Prif Weithredwr.

### 2.2.3 Adolygiad Tair Blynedd o Statws Prifysgol

Penderfyniad: **NODWYD** a **CHEFNOGWYD** Adroddiad yr Adolygiad.

### 2.2.4 Diweddariad am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol/Cydraddoldeb a Monitro

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y Cynllun a'r Adroddiad i'w cyhoeddi.

**2.2.5 Adroddiad o Gynlluniau Sifil Wrth Gefn a Pharhad Busnes ar gyfer Chwarter 4 2019/20 a 2020-21**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad Blynyddol.

**2.2.6 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Archwilio a Risg – 8 Chwefror 2021**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad Cryno.

**2.2.7 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid – 8 Chwefror 2021**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad Cryno.

**2.2.8 Adroddiad Cryno Ansawdd a Diogelwch – 16 Mawrth 2021**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad Cryno.

**2.2.9 Adroddiadau Cryno'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth – 28 Ionawr 2021 a 4 Mawrth 2021**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau Cryno.

**2.2.10. Adroddiad Cryno'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid – 17 Chwefror 2021**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad Cryno.

**2.2.11 Adroddiad Cryno'r Fforwm Partneriaeth Lleol**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad Cryno.

**2.2.12 Adroddiad Cryno'r Pwyllgor Digidol a Data**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad Cryno.

**2.2.13 Adroddiadau'r Cyd-bwyllgorau**

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau.

**3. PRIF AGENDA**

**3.1 Materion sy'n Codi heb eu hystyried yn y Cofnodion Gweithredu**

Nid oedd unrhyw faterion pellach sy'n codi a nodwyd.

**4. CYD-GREU DIWYLLIANT DYSGU A THYFU GYDA STAFF A PHARTNERIAID**

#### 4.1

### Adroddiad o'r Rhaglen Wella Gwasanaethau Newyddenedigol a Mamolaeth

Cyflwynodd G Dix, N Lyons a V Wilson yr adroddiad i aelodau a roddodd ddiweddariad mewn perthynas ag adolygiad y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP) a gwelliant cysylltiedig yn ymwneud â gwasanaethau Mamolaeth y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau Newyddenedigol. **Nododd yr** aelodau fod rhaglen waith IMSOP bellach yn cynnwys Gwasanaethau Newyddenedigol yn ffurfiol.

**Nododd** yr aelodau fod yr adroddiad yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y Gwasanaethau Newyddenedigol i sicrhau diogelwch y gwasanaeth presennol, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn cael eu hymgorffori mewn Grwpiau Lleoliad Integredig ac i sicrhau bod gwaith ymgysylltu'n cael ei wneud gyda chleifion a theuluoedd. **Nododd** yr aelodau y byddai angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â diwylliant o fewn y Gwasanaethau Newyddenedigol. Mewn perthynas â'r Gwasanaethau Mamolaeth, roedd tri argymhelliad arall wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan mewn perthynas â'r Rhaglen Datblygu Rheolaeth yr oedd y Tîm wedi'i chyflwyno, cadarnhaodd V Wilson fod gwaith yn cael ei wneud gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu i sicrhau bod cysondeb ar waith.

Codwyd cwestiwn gan N Milligan mewn perthynas ag argymhelliad 707, a chynghorodd V Wilson fod hyn yn ymwneud ag urddas menywod sy'n colli beichiogrwydd ac ychwanegodd fod cyfleuster gwych bellach wedi'i roi ar waith i gleifion. Ychwanegodd V Wilson y dylai'r peiriant sganio fod ar waith yn fuan.

**Croesawodd** MK Thomas y gwelliant sylweddol mewn data a oedd bellach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwella Newyddenedigol a Mamolaeth ac estynnodd ei diolch i V Wilson a'r Tîm am alluogi hyn i ddigwydd.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i G Dix, N Lyons a V Wilson am gyflwyno'r adroddiad a chydabu'r cynnydd a wnaed mewn nifer o feysydd allweddol.

Penderfyniad: **NODWYD** Adroddiad y Rhaglen.

#### 4.2

### Hunanasesiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Bwrdd

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad i'r Aelodau a chynghorodd ei bod yn ofynnol i'r Bwrdd gynnal asesiad blynyddol o'i effeithiolrwydd bob blwyddyn. Nododd yr adroddiad fod y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn wedi cynnal a/neu gymryd rhan mewn nifer o asesiadau a fyddai'n darparu ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol i gefnogi'r Bwrdd i gynnal ei asesiad effeithiolrwydd blynyddol.

Gofynnodd P Roseblade gwestiwn mewn perthynas â pheidio â chyfeirio at y diffyg o £58m yn yr Adroddiad Asesu Strwythuredig a dderbyniwyd yn 2020 a chadarnhaodd G Galletly y byddai'r Bwrdd Iechyd yn derbyn yr Aseiad Strwythuredig yn fuan gan Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn gyfredol (2021) a fyddai'n adlewyrchu'r sefyllfa ar gyfer y flwyddyn galendr gyfredol.

Mewn perthynas â chwestiwn a godwyd gan M Longley ynghylch y taflwybr cyfredol, dywedodd G Galletly fod yr holl ffynonellau gwybodaeth wedi nodi bod cynnydd da wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. **Nododd** yr aelodau y byddai ffynonellau sicrwydd eraill yn cynnwys gwaith craffu gan Lywodraeth Cymru ar y statws uwchgyfeirio cyfredol ochr yn ochr â chanlyniad yr adolygiad dilynol sy'n cael ei gynnal gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru/Archwilio Cymru mewn perthynas â Llywodraethu Ansawdd.

Penderfyniad: **CYMERADWYFYD** y Sgôr Aeddfedu Hunanasesu o Lefel 3.

## 5. **GWAITH GYDA CHYMUNEDAU A PHARTNERIAID I LEIHOU ANGHYDRADDOLDEB, HYRWYDDO LLESIANT AC ATAL AFIECHYD**

### 5.1 **Diweddariad ynghylch Iechyd y Cyhoedd – Ymateb i Bandemig COVID-19**

Cyflwynodd K Nnoaham ddiweddariad i'r Bwrdd ar yr ymateb i'r pandemig. **Nododd** yr aelodau y gwelliant yn erbyn y Gyfradd R o fewn Cwm Taf Morgannwg, y gostyngiad diweddar mewn achosion positif a chyfraddau positifrwydd yn ardal Merthyr Tudful, y nifer sy'n profi ar draws tair ardal yr Awdurdod Lleol, y cynnydd mewn achosion positif ymhlith pobl 30-39 oed. a phlant 10-19 oed yn enwedig yn ardal Merthyr Tudful, y gwelliant parhaus i'w weld mewn derbyniadau i'r ysbyty a deiliadaeth gwelyau Covid Unedau Therapi Dwys, ac eithrio Ysbyty'r Tywysog Charles lle bu cynnydd.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i K Nnoaham am y cyflwyniad ac ychwanegodd fod dydd Mawrth yr wythnos hon wedi nodi blwyddyn ers y cyfnod clo a gyflwynwyd yn y DU lle gwnaethom i gyd oedi i fyfyrion ar y difrod dynol echrydus y mae'r firws wedi'i achosi i'n cymunedau .

Penderfyniad: **NODWYD** y diweddariad ynghylch yr Ymateb i Bandemig COVID-19.

### 5.2 **Diweddariad ynghylch brechu rhag COVID-19**

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn rhaglen frechu Covid-19. Cydnabu'r aelodau'r gwaith sylweddol a wnaed i gyflawni'r rhaglen a thalwyd teyrnged i'r staff, aelodau'r gymuned a phartneriaid yr Awdurdodau Lleol am y gefnogaeth yr oeddent wedi'i darparu. **Nododd** yr aelodau fod y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyrraedd y dyddiad cau ganol mis Ebrill ar gyfer

rhoi'r brechlynnau i bobl dros 50 oed, er bod pryderon ynghylch cyflenwadau cyfnewidiol a **nodwyd** bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i frechu'r cymunedau anos eu cyrraedd.

Cododd J Sadgrove gwestiwn mewn perthynas â'r cynlluniau ar gyfer agor Canolfan Gymunedol Aberfan fel canolfan frechu dorfol a chynghorodd C Williams, er y bwriadwyd defnyddio'r cyfleuster fel canolfan frechu dorfol, yn dilyn gwiriadau diogelwch, y teimlwyd na fyddai'r cyfleuster yn ddigon diogel i ddal y brechlyn. **Nododd** yr aelodau na fyddai hyn yn effeithio ar nifer y brechlynnau sydd ar gael i drigolion ardal Merthyr Tudful, gyda chcludant yn cael ei ddarparu i breswylwyr pe byddent yn cael anhawster cyrraedd y ganolfan frechu ym Merthyr Tudful. **Nododd** yr aelodau y gobeithid hefyd y byddai nifer o fferyllfeydd cymunedol yn cael eu comisiynu ym mis Ebrill i ddsbarthu brechlynnau mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau trafndiaeth heriol.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan I Wells ynghylch a oedd data ar gael i ddangos faint o bobl oedd yn gwrthod cael y brechlyn, dywedodd C Williams mai 3% oedd y gyfradd gyfredol "Heb Fynychu", gyda chynnydd diweddar iawn a allai fod yn gysylltiedig â phryderon a godwyd mewn perthynas â'r brechlyn Astra Zeneca. **Nododd** yr aelodau y cysylltwyd â chleifion i benderfynu pam eu bod wedi penderfynu peidio â mynychu i gael eu brechlyn a **nodwyd** na ellid nodi unrhyw themâu diffiniol, fodd bynnag, nododd 30% o gleifion nad oeddent am gael y brechlyn. Dywedodd K Nnoaham mai 70% oedd y ffigur cyffredin mewn perthynas ag imiwnedd torfol o hyd.

Dywedodd MK Thomas ei bod yn falch iawn o'r ymdrech a wnaed gan staff i gyflwyno'r rhaglen a holodd a ellid dysgu unrhyw wersi ar gyfer rhaglenni brechu eraill, er enghraifft, brechu rhag y fflw. Dywedodd C Williams fod penderfyniad strategol wedi'i wneud i sicrhau nad oedd y tîm brechu yn canolbwyntio'n llwyr ar Covid ac ychwanegodd fod Rheolwr Gweithredol yn y broses o gael ei recriwtio a fyddai'n gyfrifol am reoli'r rhaglen frechu gyfan. Ychwanegodd K Nnoaham fod nifer o wersi eisoes wedi'u dysgu ac roedd uchelgais i ehangu'r wybodaeth a'r gallu a enillwyd ar draws rhaglenni brechu eraill.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i C Williams am gyflwyno'r adroddiad a chrosawodd y cynnydd a wnaed.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad a **CHYMERADWYWYD** y Cynllun Brechu Torfol Covid-19 diweddaraf ar gyfer Cam 2.

## 6. **DARPARU GOFAL HYGIRCH O ANSAWDD UCHEL AR SAIL TYSTIOLAETH**

### 6.1. **Cofrestr Risg y Sefydliad**

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad a roddodd gyfle i'r Bwrdd adolygu a thrafod fersiwn ddiweddaraf y Gofrestr Risg Sefydliadol.



Cydnabu I Wells y cynnydd a wnaed a chroesawyd cynnwys dyddiadau pan fyddai risgiau'n cael eu hadolygu nesaf. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan I Wells, cadarnhaodd G Galletly fod y Perchennog Risg wedi'i gynnwys yn y Gofrestr Risg gyffredinol ac ychwanegodd y byddai'n hapus i gynnwys y wybodaeth hon ar gyfer Aelodau'r Bwrdd wrth symud ymlaen.

Cadarnhaodd G Galletly, yn dilyn adborth defnyddiol a gafwyd gan aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â llinellau amser adroddiadau'r Gofrestr Risg yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau, y byddai adolygiad o'r amseriadau yn cael ei gynnal wrth symud ymlaen.

Mewn perthynas â chwestiwn a godwyd gan P Roseblade mewn perthynas â risg yn ymwneud â'r prif gatiâu yn un o'r ysbytai, cytunodd G Robinson i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedodd P Roseblade y byddai'n croesawu trafodaeth y tu allan i'r cyfarfod ar effaith risg a gwerthoedd risg. Dywedodd G Galletly ei bod yn croesawu'r cyfle i drafod hyn ymhellach y tu allan i'r cyfarfod ac ychwanegodd y byddai unrhyw adborth pellach gan Aelodau'r Bwrdd ar y Gofrestr Risg yn cael ei groesawu i lywio'r datblygiad a'r gwelliannau parhaus.

- Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad a **CHYMERADWYWD** yr argymhellion mewn perthynas â derbyn y risgiau newydd, risgiau wedi'u dad-ddwysáu, risgiau wedi'u diweddarau a risg gaeedig.
- Cam  
Gweithredu: G Gallet i gynnal adolygiad o linellau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau cofrestr risg yn y dyfodol i gyfarfodydd y Pwyllgor.
- Cam  
Gweithredu: G Robinson i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i P Roseblade y tu allan i'r cyfarfod mewn perthynas â'r risg sy'n gysylltiedig â'r prif gatiâu.
- Cam  
Gweithredu: G Galletly a P Roseblade i gwrdd y tu allan i'r cyfarfod i drafod effaith gwerthoedd risg a risg.
- 6.2** **Y Dangosfwrdd Perfformiad Integredig**

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad a rhoddodd ddiweddariad yn erbyn pedwar maes allweddol a oedd yn cynnwys llif gwybodaeth gan Wasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, y Rhaglen Adfer Gofal Dewisol, Perfformiad Gofal Heb ei Drefnu a Pherfformiad Canser.

**Nododd** yr aelodau fod y Rhaglen Adfer Gofal Dewisol yn rhan greiddiol o Gynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd a **nodwyd** bod trafodaeth wedi'i chynnal ym Mhwyllgor Ansawdd a Diogelwch mis Mawrth ar y mater hwn, gyda thrafodaeth bellach wedi'i chynllunio ar gyfer cyfarfod mis Mai y Pwyllgor.

**Nododd** yr aelodau, er bod perfformiad canser yn parhau i fod yn siomedig, fod cynllun adfer yn y broses o gael ei ddatblygu gan y tri Grŵp Lleoliad Integredig i wella perfformiad.

Mewn perthynas â chwestiwn a godwyd gan I Wells mewn perthynas â Chleifion Allanol ag Apwyntiadau Dilynol Offthalmoleg nad ydynt wedi'u Archebu, dywedodd G Robinson fod Grŵp Lleoliad Integredig Pen-y-bont ar Ogwr yn y broses o wneud darn o waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa, gan ystyried rhoi gwaith ar gontract allanol ac ehangu rôl Optometryddion Cymunedol. **Nododd** yr aelodau y byddai'r darn hwn o waith hefyd yn rhan o'r Rhaglen Adfer Gofal Dewisol.

Mewn perthynas â chwestiwn a godwyd gan I Wells ynghylch perfformiad cyfredol Gwella Ansawdd Strôc yn Ysbyty Tywysoges Cymru a pha gynlluniau oedd ar waith i wella perfformiad, dywedodd G Robinson fod F Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd yn gyfrifol am y maes hwn ac y byddai'n gallu rhoi diweddariad ar ôl dychwelyd o'i gwyliau blyneddol.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan mewn perthynas â'r gostyngiad mewn perfformiad yn erbyn metrigau'r gweithlu a pha gynlluniau oedd ar waith i fynd i'r afael â hyn, dywedodd H Daniel fod trafodaeth wedi'i chynnal gyda Grwpiau Lleoliad Integredig ynghylch perfformiad cyfredol ac y cytunwyd y byddai targedau realistig yn cael eu gosod yn erbyn pob metrig a fyddai'n cael eu monitro'n agos yng nghyfarfodydd perfformiad y Grwpiau Lleoliad Integredig. **Nododd** yr aelodau, er bod y sefyllfa'n dechrau normaleiddio, fod cynnydd yn cael ei weld mewn salwch sy'n gysylltiedig â straen. Mewn perthynas ag Adolygiadau Datblygiad Personol (PDR), dywedodd H Daniel fod y broses PDR wrthi'n cael ei hailgynllunio gan ddefnyddio'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau newydd a bod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i wella cydymffurfriad.

Yn dilyn cwestiwn a godwyd gan N Milligan mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol a oedd bellach wedi gostwng i 36% ar gyfer arosiadau 26 wythnos, dywedodd G Robinson fod cynnig wedi'i ddatblygu gan Grŵp Lleoliad Integredig Pen-y-bont ar Ogwr yn ceisio cefnogaeth i benodi Ymgynghorydd ychwanegol, a fyddai angen ei ystyried yn y broses gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan N Milligan mewn perthynas â chleifion yn aros dros 80 wythnos am asesiad, nad oedd yn dderbyniol, **cytunodd** G Robinson i egluro'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r mater hwn y tu allan i'r cyfarfod. Ychwanegodd MK Thomas fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i drawsnewid y gwasanaeth, yn enwedig yn Haen 1, a bod y tîm yn parhau i ystyried ffyrdd arloesol y gellid darparu'r gwasanaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan J Sadgrove mewn perthynas â gwasanaethau ambiwlans brys a'r rhesymau y tu ôl i'r gwaethygiad mewn perfformiad o ran yr ymateb i alwadau coch, dywedodd G Robinson fod y materion yn ymwneud â llif cleifion ac ychwanegodd y byddai'n anodd

cysylltu'r perfformiad gwael ag amseroedd ymateb Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST).

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd ynghylch a oedd y cysylltiadau rhwng y Bwrdd Iechyd a WAST yn ddigonol i sicrhau bod dull cydgysylltiedig ar waith, dywedodd P Mears fod perthynas weithredol ragorol bellach ar waith gyda WAST, gyda chyfarfodydd dal i fyny rheolaidd yn cael eu cynnal ar lefel y Bwrdd. Ychwanegodd P Mears fod Bwrdd Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu bellach ar waith a bod WAST yn bartneriaid allweddol ar y grŵp.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam  
Gweithredu: F Jenkins i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran Perfformiad Gwella Ansawdd Strôc ar ôl dychwelyd o'i gwyliau blynyddol.

Cam  
Gweithredu: G Robinson i gadarnhau'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â pherfformiad Niwroddatblygiadol y tu allan i'r cyfarfod, yn enwedig mewn perthynas â chleifion sy'n aros dros 80 wythnos am asesiad.

## 7. **SICRHOU CYNALIADWYEDD ECONOMAIDD, AMGYLCHEDDOL A CHYMDEITHASOL YM MHOPETH A WNAWN**

### 7.1 **Gwaith Ymgysylltu'r Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig**

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cynnydd yn erbyn datblygu'r Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig a'r ymgysylltiad y byddai angen ei wneud dros yr ychydig fisoedd nesaf gyda'r Bwrdd, timau arweinyddiaeth ehangach a chymunedau.

Dywedodd P Mears y byddai angen gwneud cryn dipyn o waith i wneud y Bwrdd Iechyd yn sefydliad sy'n gwirioneddol ganolbwyntio ar iechyd y boblogaeth ac ychwanegodd y byddai ymgysylltu yn elfen allweddol i'r darn hwn o waith, yn enwedig yr ymgysylltiad â'n cymunedau.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan S Webster mewn perthynas â sicrhau lefel y manylder ynghylch allbynnau disgwylidig o'r darn hwn o waith, dywedodd P Mears y byddai angen bod ag uchelgais gyffredinol ar y model gofal yn y dyfodol, yn ogystal â Strategaeth Glinigol fanylach a fyddai'n cynnwys manylion mewn perthynas â modelau gwasanaeth.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i C Williams am gyflwyno'r adroddiad a chroesawodd y drafodaeth bwysig a gynhaliwyd ar y mater hwn. Dywedodd C Williams fod y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol wedi'i atodi i'r adroddiad gan y byddai angen gwneud rhywfaint o'r gwaith lleol ochr yn ochr â'r fframwaith cenedlaethol.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

## 7.2 Cynllun Tymor Canolig Integredig

Rhoddodd C Williams ddiweddariad llafar i'r Bwrdd a dywedodd fod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn heriol i gynllunio ynddi. **Nododd** yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno cynllun drafft a fyddai'n destun trafodaeth barhaus. Byddai'r cynllun drafft yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2021 gyda goruchwyliaeth y Bwrdd. Dywedodd C Williams fod gofyniad fel Bwrdd Iechyd i gael Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd cymeradwy, a oedd eisoes ar waith yn dilyn y cynllun a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru y llynedd. **Nododd** yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y byddai cynllun cymeradwy blaenorol y Bwrdd Iechyd yn parhau i fodoli.

Penderfyniad: **NODWYD** y diweddariad.

## 7.3 Arolwg Lles y Staff

Cyflwynodd H Daniel yr adroddiad a roddodd grynodedb i'r Bwrdd o ganfyddiadau'r Arolwg Lles Staff a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020.

Croesawodd J Sadgrove yr adroddiad a oedd, yn ei barn hi, yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol a chynghorodd fod y materion yn ymwneud â lles ein staff ar y gofrestr risg a'i fod yn destun pryder i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Dywedodd J Sadgrove fod yr adroddiad yn cyfeirio at ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff o'r gwasanaeth lles ac awgrymodd y gallai cwestiwn ar hyn gael ei ychwanegu at yr arolwg nesaf. Cytunodd H Daniel fod angen codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau oedd ar waith ar gyfer staff ac ychwanegodd fod adnodd cyfathrebu pwrpasol yn y broses o gael ei recriwtio i fynd i'r afael â hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan J Sadgrove ynghylch amseriad yr arolwg nesaf, y cynigiwyd ei gynnal yn ystod Ebrill/Mai, a fyddai'n fwy priodol ymgymryd â hyn ym mis Mehefin, **cytunodd** H Daniel i ystyried amseriad yr arolwg nesaf ac ychwanegodd y byddai'n awyddus i gynnal arolygiad staff yn rheolaidd.

Gwnaeth J Sadgrove sylwadau ar y poster "You Said, We Did" a gefnogodd yn llawn a chyfeiriodd at staff gan nodi eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau. Ychwanegodd J Sadgrove na allai weld ymateb i hyn ac awgrymodd fod angen cydnabod hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan D Jouvenat mewn perthynas ag a oedd gwerthusiad yn cael ei gynnal o effeithiolrwydd rhai o'r gwasanaethau a gyflwynwyd ar gyfer staff, dywedodd H Daniel fod effeithiolrwydd gwasanaethau yn cael ei werthuso a chadarnhaodd, pe bai gwasanaeth yn gweithio, y byddai camau yn cael eu cymryd i roi cynnig ar atebion amgen.

Cyfeiriodd I Wells at y nifer gymharol fach o ymatebion a gafwyd gan staff a allai effeithio ar y dadansoddiad data, fodd bynnag, cydnabu hefyd fod yr

ymatebion a ddarparwyd hefyd yn cynnwys data gwerthfawr y mae'n rhaid gweithredu arno. Cytunodd I Wells hefyd y gallai fod angen ailystyried amseriad yr arolwg nesaf.

Dywedodd N Milligan mai un o'r meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf a godwyd gan staff yw diffyg hyblygrwydd ac ychwanegodd y byddai angen ystyried hyn wrth symud ymlaen. Cytunodd H Daniel y byddai angen i'r Bwrdd Iechyd adnewyddu ei ddull o weithio hyblyg/ystwyth.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam Gweithredu: Amseriad yr arolwg staff nesaf i'w ystyried gan H Daniel.

Cam Gweithredu: Cydnabyddiaeth i'w rhoi i'r datganiadau a wnaed gan staff mewn perthynas â themlo nad oes ganddynt ddigon o adnoddau ac ymateb i'w darparu yn y poster "You Said, We Did".

#### 7.4 Diweddariad Cyllid - Mis 11

Cyflwynodd S Webster yr adroddiad a chynghorodd yr Aelodau, er bod y rhagolwg cyffredinol wedi aros ar sefyllfa o adennill costau, bod yr enillion arfaethedig o ran cyllid i Lywodraeth Cymru wedi cynyddu 5.9m i 26.9m. **Nododd** yr aelodau fod rhai risgiau gweddilliol yn ymwneud â hyn, a oedd yn cynnwys y gwariant gweithredol a drefnwyd ar gyfer Mawrth 2021 a chroniad gwyliau blynyddol a oedd ar hyn o bryd yn 15.9m. **Nododd** yr aelodau y byddai risg o hyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cael ei hun â gwaged, y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ceisio ei leihau.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw arwydd y byddent yn derbyn y gwaged, dywedodd S Webster fod y Bwrdd Iechyd yn obeithiol, fodd bynnag, rydym yn aros am ymateb ffurfiol.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

#### 8 UNRHYW FATERION ERAILL

Ni nodwyd unrhyw eitemau.

#### 9 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 10.00am ddydd Iau 27 Mai 2021.

#### 10 DIWEDD Y CYFARFOD



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg  
University Health Board

Heb eu Cadarnhau